# Bwletin y Farchnad HCC

Tachwedd 2023

**Mae Bwletin Marchnad y mis hwn yn edrych ar y sector cig eidion a nifer y ffactorau sy'n dylanwadu ar y farchnad ar hyn o bryd, yn enwedig gan fod y farchnad gwartheg difa yn dioddef cyfartaleddau is.**

**Glesni Phillips - Swyddog Gweithredol Deallusrwydd, Dadansoddi a Mewnwelediad Busnes**



*Mae prisiau pwysau marw gwartheg dethol yng Nghymru a Lloegr wedi sefydlogi rhywfaint wrth fynd i fis Tachwedd yn dilyn profi prisiau is yn ystod mis Awst. Mae cyfartaleddau cyfredol yn gryf o'u cymharu â lefelau flwyddyn ynghynt, gyda'r prif gategorïau yn eistedd rhyw 32-36c yn uwch na'r wythnos gyfatebol yn 2022.*

*Fodd bynnag, mae'r farchnad pwysau marw gwartheg difa yn edrych yn wahanol iawn. Mae'r cyfartaledd yng Nghymru a Lloegr wedi bod islaw'r lefelau flwyddyn yn gynharach ers tua 19 wythnos, gyda'r cyfartaledd yn gostwng islaw'r marc £3/cilo yn ystod yr wythnosau diwethaf. Ar gyfer yr wythnos ddiweddaraf, mae'r data yn awgrymu bod y cyfartaledd tua 42c yn is na lefelau flwyddyn yn gynharach. Mae adroddiadau diwydiant yn awgrymu bod marchnad Iwerddon yn parhau i ddylanwadu ar y farchnad ddomestig gan fod prisiau gwartheg Iwerddon yn is yn nodedig. Roedd ffigurau lladd gwartheg llawn-dwf hefyd yn anhygoel o uchel yn ystod mis Hydref - a fyddai hefyd yn rhoi pwysau ar y pris cyfartalog. Ehangodd y gwahaniaeth prisiau rhwng bustych dethol a gwartheg difa i £1.92/kg yn ystod yr wythnos ddiweddaf.*

## CYFLENWAD

Mae data trwybwn Defra ar gael ar hyn o bryd hyd at fis Hydref 2023. O edrych ar y flwyddyn hyd yma; mae cyfanswm trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU yn **debyg** i lefelau flwyddyn ynghynt, sef 2.3 miliwn pen. Mae trwybwn gwartheg dethol i fyny 0.3% ar y flwyddyn, tra bod gwartheg llawn-dwf i lawr 0.3% - fodd bynnag mae amrywiadau rhwng categorïau. Mae trwybwn heffrod yn parhau i fod yn uwch ac mae'n cyfrif am 39% o gyfanswm trwybwn gwartheg dethol hyd yn hyn ar 672,700 pen (i fyny 2% ar y flwyddyn), tra bod bustych i lawr 1%. Fel y disgwylid gyda gwartheg yn cael eu cartrefu wrth i ni fynd i mewn i fisoedd y gaeaf; fe wnaeth mis Hydref gofnodi'r nifer uchaf o wartheg difa hyd yn hyn eleni, tra bod nifer cryf o wartheg dethol wedi'u prosesu hefyd.

Mae pwysau carcas cyffredinol wedi bod yn ysgafnach flwyddyn ar flwyddyn yn ystod y misoedd diwethaf, ac mae hyn wedi bod yn pwyso ar gyfeintiau cynhyrchu. Cyfanswm cynhyrchiant cig eidion yn y DU yn ystod mis Hydref oedd 82,100 tunnell – sef y cyfaint uchaf a gofnodwyd hyd yn hyn yn 2023, ond i lawr 3% ar y llynedd. Mae cyfeintiau cynhyrchu ar gyfer y flwyddyn hyd yn hyn yn 1% yn is na'r lefelau flwyddyn ynghynt, sef 751,800 tunnell.

## MASNACH

Dim ond hyd at fis Medi mae data masnach CThEF ar gael ar hyn o bryd. Cyfanswm y cig eidion ffres/wedi'i rewi a allforiwyd o'r DU yn ystod mis Medi oedd 8,300 tunnell - i **lawr 12%** ar y flwyddyn, tra bod cynhyrchu cig eidion ar y farchnad ddomestig ar un o'r lefelau misol isaf a welwyd hyd yn hyn yn 2023. Wrth edrych ar y flwyddyn hyd yma, mae cyfeintiau misol wedi aros yn gyson o gwmpas y marc 8,000-8,500-tunnell. O ganlyniad, mae cyfanswm o 74,700 tunnell o gig eidion wedi cael ei allforio yn 2023 hyd yn hyn, sydd ryw 20% yn is na'r llynedd. Mae Ffrainc a'r Iseldiroedd wedi derbyn llai o lwythi. Mae'n debyg bod cynhyrchiant tynnach ar y farchnad ddomestig wedi chwarae rhan yma, gan fod cyfanswm y cynhyrchiant rhwng Ion-Medi i lawr 1% ar y flwyddyn.

Er gwaethaf y ffaith bod lefelau cynhyrchu domestig yn is ar y flwyddyn, mae cyfaint mewnforio o gig eidion ffres/wedi'i rewi yn parhau i fod islaw lefelau hanesyddol. Ar gyfer mis Medi, roedd cyfeintiau mewnforio cig eidion i **lawr 1%** ar y flwyddyn ar 18,350 tunnell, gan ddod â'r cyfanswm i 164,700 tunnell ar gyfer y flwyddyn hyd yma - rhyw 4% yn is na'r un cyfnod y llynedd. Mae mewnforion cig eidion o Iwerddon yn parhau i fod yn sefydlog i raddau helaeth am y flwyddyn, tra bod llai o lwythi o'r Almaen yn ysgogi'r dirywiad hwn.

## GALW

Mae chwyddiant Prisiau Groser yn gostwng, ond mae'n dal i fod yn hanesyddol uchel. O ganlyniad, mae defnyddwyr yn parhau i brofi prisiau uwch mewn siopau ac felly'n parhau i chwilio am ffyrdd o reoli eu cyllidebau. Ar gyfer cig eidion; mae'r pris cyfartalog mewn siopau ym Mhrydain Fawr wedi bod yn dilyn llwybr i fyny cyffredinol ers peth amser bellach. Mae'r data diweddaraf a ryddhawyd gan Kantar ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar 29 Hydref yn dangos bod y pris cyfartalog yn £9.67/kg ar gyfer y cyfnod o 12 wythnos yn siopau Prydain Fawr - sydd dros 11% yn uwch na lefelau flwyddyn yn gynharach.

Roedd cyfanswm y cyfaint a werthwyd yn ystod y cyfnod hwn i lawr 4% ar y flwyddyn, tra bod cyfanswm gwariant bron i 7% yn uwch oherwydd prisiau cynyddol. Mae cyfran y cyfaint hwn a werthwyd fel briwgig trwy fanwerthwyr wedi bod yn uwch yn ystod y cyfnod 2 flynedd diweddaraf, gyda'r gyfran yn ystod y cyfnod o 12 wythnos i fyny mor uchel â 58% - codiad sylweddol o'i gymharu â'r 53% yn ystod yr un cyfnod yn 2021. Heb os, bydd hyn yn rhoi pwysau ar y farchnad wrth i gyfran gynyddol o'r carcas gael ei werthu fel briwgig.

***Beth mae hyn yn ei olygu i'r diwydiant?***

*Mae proseswyr wedi bod yn profi pwysau carcas ysgafnach sy'n pwyso ar gyfeintiau cynhyrchu cyffredinol. Gyda niferoedd uchel o wartheg difa yn dod ymlaen wrth i ni fynd i mewn i fisoedd y gaeaf, bydd hyn yn debygol o roi pwysau parhaus ar y cyfartaledd pwysau marw. Er gwaethaf data Kantar yn datgelu bod gwerthiannau cig eidion cartref yn parhau i grebachu, mae optimistiaeth y bydd y galw yn gadarn dros gyfnod yr ŵyl.*

# Crynodeb Misol y Farchnad

## GWARTHEG

### Prisiau – yr wythnos yn dod i ben 18 Tachwedd


Y pris cyfartalog am wartheg dethol mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru a Lloegr oedd 260.0c/kg. Roedd hyn:
- + 1.8c ar yr wythnos flaenorol,
- + 15.5c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 50.0c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2018-22: 210.0c/kg).


Y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych oedd **476.9c/kg**. Roedd hyn:
- - 0.1c ar yr wythnos flaenorol,
- 36.9c uwchlaw lefelau blwyddyn yn gynharach.

Roedd y prisiau pwysau marw ar gyfer heffrod yn 468.9c/kg (-0.4c ar yr wythnos), teirw ifanc yn 456.9c/kg (-2.8c), a gwartheg difa yn 284.5c/kg (-6.6c).

### Trwybwn – Hydref 2023

- Cyfanswm y trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU = 257,100 pen – gostyngiad o 3% ar y flwyddyn
- Cyfanswm y trwybwn gwartheg dethol = 180,500 pen - i lawr 2% ar y flwyddyn.
  - ➢ *bustych -2%, heffrod -0.1%, a theirw ifanc -7%.*
- Cyfartaledd pwysau carcasau gwartheg dethol = 339.3kg (-2kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn gwartheg llawn-dwf = 66,200 pen - i lawr 5% ar y flwyddyn.




## DEFAID

### Prisiau — yr wythnos yn dod i ben 18 Tachwedd


Pwysau byw cyfartalog ŵyn dethol SQQ mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru oedd **254.3c/kg**. Roedd hyn:
- - 4.4c ar yr wythnos flaenorol,
- + 17.5c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 44.7c uwchlaw'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2018-22: 209.6c/kg).


Prisiau mamogiaid difa cyfartalog mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru oedd **£68.70/pen**. Roedd hyn:
- + £2.70 ar yr wythnos flaenorol,
- £3.30 uwchlaw lefelau blwyddyn yn gynharach.

Prisiau ŵyn pwysau marw Prydain fawr ar gyfartaledd oedd 589.9c/kg (+12.0c ar yr wythnos).

### Trwybwn – Hydref 2023

- Cyfanswm y trwybwn defaid mewn lladd-dai yn y DU = 1.3 miliwn pen – i lawr 3% ar y flwyddyn.
- Trwybwn cig oen = 1.1 miliwn pen – i lawr 2.5% ar y flwyddyn.
- Pwysau cyfartalog carcasau ŵyn = 19.5kg (tebyg ar y flwyddyn).
- Trwybwn mamogiaid a hyrddod difa = 144,100 pen – i lawr 8% ar y flwyddyn.




## MOCH

### Prisiau — wythnos yn dod i ben ar 11 Hydref

Roedd Pris Mochyn Cyfan Manyleb yr UE (APP) ym Mhrydain Fawr yn **217.0c/kg**. Roedd hyn:
- - 0.4c ar yr wythnos flaenorol,
- + 12.4c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 52.3c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2018-22: 164.7c/kg).

### Trwybwn - Hydref 2023

- Cyfanswm y trwybwn moch mewn lladd-dai yn y DU = 901,600 pen – gostyngiad o 8% ar y flwyddyn.
- Trwybwn moch heb fagu = 882,400 pen – i lawr 14% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas moch heb fagu cyfartalog = 89.7kg (-0.5kg ar y flwyddyn)
- Trwybwn hwch a baedd = 19,200 pen – i lawr 0.5% ar y flwyddyn.

